Cyngor Abertawe Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 18 Ionawr 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | D W Helliwell |
| T J Hennegan | P K Jones | H Lawson |
| W G Lewis | S Pritchard | G J Tanner |
| W G Thomas | T M White | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

| | |
|---|---|
| D Anderson-Thomas | A Roberts |

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| C A Holley | S M Jones | J W Jones |
| P R Hood-Williams | L R Jones | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Marlyn Dickson | Strategic Change Programme Manager |
| Julie Gosney | Partnership and Involvement Team Manager |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sarah Lackenby | Prif Swyddog Trawsnewid |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Jane Whitmore | Comisiynydd Strategol Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): C E Lloyd

Aelodau Cyfetholedig Statudol:

Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig:

---

## 83 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd Sam Pritchard – Cofnod Rhif 88 – Datganodd y Cynghorydd Sam Pritchard gysylltiad personol a rhagfarnol a thynnodd yn ôl o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem.

## 84 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 85 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

## 86 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 87 Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Roedd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd), Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau (Dirprwy Arweinydd), y Dirprwy Brif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gweithredol – Iechyd y Cyhoedd, y Comisiynydd Arweiniol Strategol a Rheolwr y Tîm Partneriaeth a Chynhwysiad i gyd yn bresennol i Graffu ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Roedd y ffocws allweddol ar Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PBS) 2020/21, a chafwyd trafodaeth benodol am Amcanion Lles y Blynyddoedd Cynnar a Heneiddio'n Dda y BGC. Rhoddwyd anerchiad llafar gan gynrychiolwyr, yn ychwanegol at yr adroddiad ysgrifenedig, gan gynnwys y pwyntiau canlynol: -

- Roedd Cyd-bwyllgor y BGC wedi bod yn gwella data sylfaen, roedd yn datblygu asesiad lles a fframwaith newydd a fyddai'n cefnogi'r gwaith o adrodd ar berfformiad.
- Roedd y Cydbwyllgor wedi cytuno ar fatrics cwmpasu i sicrhau eglurder ynghylch amcanion a phrosiectau a oedd yn destun gwaith ar hyn o bryd, o ran cyfraniad y BGC a chyfranogiad y Cydbwyllgor
- Roedd yr ymateb i COVID-19 wedi dominyddu'r flwyddyn ddiwethaf, gan effeithio ar ei waith
- Gwnaed gwaith sylweddol ar draws y grwpiau cyflwyno Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda a'r Blynyddoedd Cynnar, a chyfeiriwyd at y canlynol: -
    - Cynllun Hawliau Plant
    - Rhwydwaith Hawliau Plant
    - Gwaith parhaus i wneud Abertawe'n Ddinas sy'n Ystyriol o Oedran
    - Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda
    - Recriwtio Swyddog Partneriaeth a Chyfranogiad
    - Cyfleoedd cyfranogi ac ymgynghoriadau
    - Diogelu a Chydraddoldeb yn y Gymuned LHDTC+

- ○ Roedd gwaith wedi dechrau ar annog pleidleisio yn 16+

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Fframwaith perfformiad a threfniadau rheoli i ddangos y gwahaniaeth y mae'r BGC yn ei wneud yn ogystal ag adrodd am gyflawniadau a chanlyniadau cyfarfodydd
- Gwella'r data sylfaen dan yr asesiad lles
- Datblygu fframwaith i gefnogi'r gwaith o adrodd am berfformiad
- Model gwell ar gyfer cyflawni a mesur llwyddiant – dangosyddion perfformiad allweddol caled a meddal a'r olrheiniwr cynnydd canfyddiad ar gyfer partneriaid
- Cytunwyd ar fatrics cwmpasu i sicrhau bod ffrydiau gwaith ac amcanion yn glir
- Adroddwyd am rai enghreifftiau o welliannau/fentrau a roddwyd ar waith fel Ymrwymiad i Ddinas Hawliau Dynol, diwylliant cymunedol, agenda iechyd meddwl, argyfwng hinsawdd ac argyfwng natur, gwelliannau ar y Stryd Fawr, cryfhau'r berthynas â phartneriaid a chyllid gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwelededd y cyhoedd o ran gwaith y BGC ac ymgysylltu'n well â'r cyhoedd
- Trefniadau ar gyfer prosesu a defnyddio barn a gesglir mewn digwyddiadau ymgysylltu
- Effaith y ffordd ddosbarthu newydd ar ansawdd yr aer yn yr Hafod – gwelwyd gostyngiad o 30% yn N02 ers ei hagor yn 2016 (nid oedd y ffigur hwn yn cynnwys y lefel is o draffig oherwydd COVID-19) a gostyngiad o 28% mewn traffig drwy'r Hafod ar hyd Neath Road yn y 2 flynedd gyntaf o'i hagor
- Llwyddiant y Cynllun Men's Shed a'r Cynllun Teithio Llesol gyda phwysigrwydd cynyddol ar fannau gwyrdd
- Dyfodol Ysbyty'r Bae – ymestyn y caniatâd cynllunio dros dro

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau, Swyddogion ac Aelodau'r Bwrdd.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 88 Craffu Cyn Penderfynu: - Adferiad a Buddsoddiad Covid.

Roedd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd), Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thrawsnewid Gwasanaethau (Dirprwy Arweinydd), Aelod y Cabinet dros Wella Busnes a Pherfformiad a Swyddogion i gyd yn bresennol er mwyn i'r Pwyllgor ystyried adroddiad y cabinet ar 'Adfer o COVID a Buddsoddiad'

Roedd yr adroddiad yn cynnwys casgliad o fuddsoddiadau a symiau o arian a gynigiwyd i gefnogi nifer o fentrau allweddol gan gynnwys isadeiledd ar systemau TG y cyngor i sicrhau cadernid wrth symud i'r cwmwl. Roedd arian ar gyfer ardaloedd chwarae ychwanegol ledled y ddinas yn ogystal â rhai buddsoddiadau i wrthbwyso rhai o'r pwysau a oedd wedi codi o ganlyniad i COVID
Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Yr oedi o ran gwneud y gwaith i uwchraddio Oracle a'r effaith ar y rhaglen a'r costau. Eglurwyd bod y buddsoddiad o £3.62m yn ychwanegol at gyllideb

flaenorol o £4.8m ar gyfer y rhaglen felly byddai'n cynrychioli cyfanswm gwariant o ychydig dan £8.5m – ni ddisgwylid iddo godi ymhellach ar yr amod nad oedd unrhyw amrywiolion pellach na materion nas rhagwelwyd yn codi

- Effaith COVID – roedd angen tua £1 miliwn o bunnoedd ar gyfer trwyddedau ychwanegol yn ogystal â'r angen i ddarparu mwy o ddyfeisiau i alluogi pobl i weithio gartref. Roedd yn rhaid cynllunio systemau i ddarparu cymorth i fusnesau a gweinyddu grantiau, systemau ar gyfer talu prydau ysgol, taliadau ar-lein ar gyfer tai gyda phorth tai yn cael ei lansio cyn bo hir etc., ac roedd y rhain i gyd yn cael blaenoriaeth dros uwchraddio Oracle yn ogystal â'r holl systemau a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru, megis Profi, Olrhain, Diogelu
- Cadernid yr isadeiledd digidol a'r systemau TG - y system Oracle oedd yr olaf mewn cyfres o waith uwchraddio angenrheidiol ac roedd yr holl systemau corfforaethol mawr/hanfodol mor gadarn ag y gallent fod, gyda chynlluniau cadernid ac adfer/parhad ar waith
- Y dull ar gyfer y buddsoddiad arfaethedig mewn Cyfleusterau Parc Sglefrio ar draws ardal y cyngor - roedd arolwg o gyfleusterau presennol yn cael ei gynnal gan swyddogion a byddent yn ceisio diddordeb cynghorwyr lleol ynghylch cyfleusterau yn y man, ond byddai ymagwedd strategol yn cael ei dilyn i sicrhau defnydd effeithiol o arian, gan roi cyfleusterau yn y mannau lle mae galw clir amdanynt. Awgrymwyd y dylid cynnwys dichonoldeb cyfleuster symudol mewn unrhyw opsiynau ar gyfer arfarnu, y gellid eu rhannu gan ardaloedd ledled Abertawe
- Rhagdybiaethau ynghylch gweithio gartref yn y tymor hwy, y tu hwnt i'r pandemig, a'r goblygiadau i'r cyngor o ran gofod swyddfa yn y dyfodol a chostau cysylltiedig – disgwylid y byddai'r cyngor yn parhau â'r polisi gweithio ystwyth gyda chymysgedd o weithio yn y swyddfa a gweithio gartref
- Clywodd y Pwyllgor fod galw o hyd am ddatblygu swyddfa breifat
- Symud i system deleffoni ar y we – y gallu i'r cyhoedd gysylltu â swyddogion

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r Swyddogion.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at yr Arweinydd, gan amlinellu barn y Pwyllgor cyn cyfarfod y Cabinet ar 20 Ionawr 2022.

**89 Craffu Cyfrifoldebau Portffolio Aelod y Cabinet - Sesiwn holi ac ateb gydag Arweinydd y Cyngor/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Y Cynghorydd Rob Stewart).**

Roedd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd) a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn bresennol i Graffu ar Ei Gyfrifoldebau Portffolio Aelod y Cabinet.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Brexit - Goblygiadau disgwyliedig i Abertawe a'r effaith ar gyllid ar gyfer Abertawe, gan y rhagwelir y byddai disodli Cronfeydd Strwythurol yr UE gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael effaith negyddol fawr ar yr economi yn gyffredinol. Amcangyfrifwyd bod tua £100 miliwn wedi'i golli mewn cyllid yn

Abertawe drwy wahanol bartneriaid. Roedd yn dal i aros am fanylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin

- Canol y Ddinas – cynnydd/diweddariad ar siopau/unedau gwag yng nghanol y ddinas yn enwedig Debenhams a Chanolfan Siopa'r Cwadrant – Clywodd y Pwyllgor fod COVID wedi effeithio ar bob canol dinas a bod cwmnïau cenedlaethol yn methu. Roedd Abertawe wedi dod drwy dipyn o hynny ac roedd y buddsoddiadau niferus parhaus o amgylch y ddinas yn helpu i wneud Abertawe'n lle deniadol i fuddsoddi ynddo. Roedd 7 siop wag yn y Cwadrant, ac mae 4 ohonynt bellach wedi'u hail-osod ac roedd trafodaethau'n parhau mewn perthynas â Debenhams
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas - llety myfyrwyr, swyddfeydd gan gynnwys Theatr y Palas, swyddfeydd pellach ar Princess Way, ail-leoli'r Ganolfan Ddinesig, hwb cymunedol, buddsoddiadau yn y sector preifat ynghyd â digwyddiadau y gellir eu cynnal yn yr arena newydd, Neuadd Albert yn ogystal â Neuadd Brangwyn, Stadiwm Liberty a Pharc Singleton yn ogystal â lleoliadau eraill fel mannau cyhoeddus, Gerddi'r Castell a Wind Street a fydd hefyd yn ychwanegu at gynnig Abertawe
- Rhaglen Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru – amlinelliad ac amserlenni
- Ailddylunio Wind Street – cynllun gwella mannau cyhoeddus gwerth £3 miliwn gyda'r nod o ehangu apêl yr ardal a darparu amgylchedd mwy diogel, mwy hygyrch a deniadol.
- Gosod 70 o synwyryddion monitro ansawdd aer sy'n defnyddio technoleg ddigidol i fonitro a deall ansawdd aer, a defnyddio'r wybodaeth gan y synwyryddion hyn i lywio penderfyniadau a chynllunio trafnidiaeth posib yn y dyfodol
- Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn perthynas â dyfodol yr ystadau tai ar Emrys Road a Tudno Place ym Mhen-lan a'r uwchgynllun – Ymgynghoriadau ac ymgysylltu i barhau o wanwyn 2022
- Y ddarpariaeth westai yn Abertawe a'r camgyfathrebu ynghylch ffoaduriaid yn ymgartrefu yng ngwesty'r Dragon

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Aelod a'r Swyddogion

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at yr arweinydd, gan amlinellu barn y Pwyllgor.

## 90 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Addysg (y Cynghorydd Lyndon Jones, Cynullydd).

Cyflwynodd y Cynghorydd Lyndon Jones, Cynullydd, Adroddiad Diweddaru'r Panel Perfformiad Addysg a thynnodd sylw at y ffaith fod y Panel wedi bod yn canolbwyntio ar y canlynol, ymysg gwaith arall: -

- Prosiect Sgiliau a Thalent y Fargen Ddinesig, a phryderon am y cyfleoedd i blant ddysgu'r sgiliau cywir mewn ysgolion i gael mynediad at swyddi i gefnogi holl brosiectau'r Fargen Ddinesig
- Perfformiad y plant hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Diolchodd y Cynullydd i athrawon, penaethiaid a staff am eu holl waith caled.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynullydd am yr adroddiad.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 91 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth y paneli a'r gweithgorau craffu. Ni nodwyd unrhyw newidiadau.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 92 Rhaglen Waith Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar y Rhaglen Waith Craffu.

Trefnwyd cyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar gyfer 15 Chwefror 2022. Y brif eitem a drefnwyd oedd Craffu ar Drosedd ac Anhrefn – Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel.

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf am gais cyhoeddus i graffu ar anawsterau'r rheini heb ddarpariaeth parcio oddi ar y stryd i wefru cerbydau trydan gartref. Nid oedd angen cymryd unrhyw gamau ar unwaith o ran craffu, ond awgrymodd efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno craffu ar strategaeth ddrafft y cyngor ar gyfer gweithredu pwyntiau gwefru cerbydau trydan, a fydd yn ystyried gwefru ar y stryd fel rhan o'r strategaeth, wrth iddi ddod ar gael. Mater i'w drafod ar ôl yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai fyddai hwn.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad.

## 93 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Llythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r llythyrau Craffu.

## 94 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf y panel/gweithgor.

**Llythyr at Aelod y Cabinet - Craffu Cyn Penderfynu**

Daeth y cyfarfod I ben am 6.01 pm

**Cadeirydd**